Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Rhagfyr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Rhagfyr 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 5**

Diben y Bil ..... 5

Cylch gwaith y Pwyllgor ..... 6

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 8**

Y goblygiadau o ran hawliau dynol ..... 8

Ein barn ni ..... 9

**3. Arsylwadau cyffredinol ..... 11**

Yr angen am y Bil ..... 11

Ymgynghoriad ar gynigion y Bil ..... 15

Diffyg diffiniad o siaradwr Cymraeg ..... 16

Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth ..... 16

Ein barn ni ..... 21

**4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil ..... 24**

Rhan 1 (Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg) ..... 24

Ein barn ni ..... 26

Adrannau 8 i 10 (Addysg Gymraeg a chategorïau iaith ysgolion) ..... 27

Ein barn ni ..... 30

Adran 13 (Rheoliadau ar gategorïau iaith ysgolion) ..... 31

Ein barn ni ..... 32

Adrannau 14 a 15 (Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion a chymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg) ..... 33

Ein barn ni ..... 34

Adrannau 18 i 20 (Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad dros dro ac esemptiad pellach; ac ysgolion arbennig cymunedol: cynlluniau a dynodi categori iaith) ..... 34

Ein barn ni ..... 35

Adran 23 (Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg) ..... 36

Ein barn ni ..... 38

Adrannau 28 i 34 (Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg) ..... 39

Ein barn ni ..... 45

Rhan 5 ac Atodlen 2 (Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol) ..... 46

Ein barn ni ..... 51

Adran 49 (Dehongli) ..... 52

Ein barn ni ..... 53

Adran 50 (Cyhoeddi) ..... 53

Ein barn ni ..... 54

# 1. Cyflwyniad

## Ar 15 Gorffennaf 2024, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles AS, Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)[1] (y Bil), a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef[2].

**1.** Ar 9 Gorffennaf 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a phennu 13 Rhagfyr 2024 fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.[3]

**2.** Ar 15 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd hefyd ddatganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil (y datganiad o fwriad y polisi).[4]

**3.** Ar 17 Medi 2024, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, at y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, i roi hysbysiad bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS (Ysgrifennydd y Cabinet), wedi'i awdurdodi i fod yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.[5] Roedd hyn ar ôl i'r Prif Weinidog gyhoeddi cabinet newydd.[6]

## Diben y Bil

**4.** Wrth ei gyflwyno, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd fod diben y Bil fel a ganlyn:

> *"Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Bil yn cyflawni'r nod hynny drwy geisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Yn benodol, yr amcan yw i bob disgybl feithrin sgiliau*

---

[1] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, Gorffennaf 2024
[2] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2024
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)
[4] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn, Gorffennaf 2024
[5] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 17 Medi 2024
[6] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Llywodraeth newydd yn cyflawni dros Gymru, 11 Medi 2024

*llafar sydd gyfystyr â lefel B2, o leiaf, o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.!"*[7]

**5.** Yn gryno, bydd y Bil:

- yn rhoi sail statudol i'r targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill yn ymwneud â defnyddio'r iaith;
- yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar Ieithoedd[8];
- yn gwneud darpariaethau ynghylch dynodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, ynghyd â gofynion o ran swm yr addysg Gymraeg a ddarperir (yn cynnwys isafswm), a nodau dysgu Cymraeg sydd ynghlwm wrth y categorïau;
- yn cysylltu'r cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg (y Fframwaith Cenedlaethol), ar lefel awdurdod lleol (drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg); ac
- yn sefydlu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg.

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**6.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 15 Gorffennaf 2024
[8] Ar gael yn: www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages/level-descriptions

**7.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, rydym yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau dynol a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr ECHR);
- y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r wybodaeth a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi'i dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**8.** Clywsom dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 21 Hydref 2024.[9] Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar 24 Hydref 2024 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.[10] Ar yr un pryd, gwnaethom dynnu sylw Ysgrifennydd y Cabinet at gyfres o anghysondebau testunol o fewn y Bil a'r Memorandwm Esboniadol.

**9.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'n cwestiynau ar 15 Tachwedd 2024, ac ymrwymodd hefyd i gywiro'r anghysondebau testunol a godwyd gennym.[11]

[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion
[10] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 24 Hydref 2024
[11] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[12]

**10.** Gwnaethom ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**11.** Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[13]

**12.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth lafar ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[14]

### Y goblygiadau o ran hawliau dynol

**13.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn trafod effaith y Bil ar hawliau dynol. Gwnaethom ofyn felly i Ysgrifennydd y Cabinet roi rhagor o fanylion am yr effaith y bydd y Bil yn ei chael ar blant a'u teuluoedd, gan gyfeirio'n benodol at Erthygl 2 o Brotocol 1[15] i, ac Erthygl 14[16] o, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"… this is a Bill that essentially operates within the framework that already exists; children already attend school, and all the arrangements around their education are set out in earlier legislation. Chapter 9 of the EM does provide a summary of the impact assessments that were undertaken in order to give us confidence that the Bill is Human Rights Act 1998 compliant.*

---

[12] Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1
[13] Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol: Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), 15 Gorffennaf 2024
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [83]
[15] Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 i'r ECHR yn diogelu'r hawl i addysg, ac yn datgan fel a ganlyn: "No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and teaching, the State shall respect the rights of parents to ensure such education and teaching in conformity with their own religious and philosophical convictions."
[16] Mae Erthygl 14 o'r ECHR yn diogelu rhag gwahaniaethu, ac yn datgan fel a ganlyn: "The enjoyment of the rights and freedoms set forth in this Convention shall be secured without discrimination on any ground such as sex, race, colour, language, religion, political or other opinion, national or social origin, association with a national minority, property, birth or other status."

> *That summary is a distillation of a series of separate impact assessments that were published together when the Bill was introduced to the Senedd on 15 July, and I think you will find that the children's impact assessment is clearly available to colleagues there. That gives us confidence that the human rights considerations that have to be satisfied in order for the Bill to be within competence—. The children's rights impact assessment gives us confidence that those aspects have been properly considered."*[17]

**14.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad hawliau dynol ar gyfer y Bil, ac i nodi canlyniad yr asesiad hwnnw. Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor, trafodwyd yr effaith ar hawliau dynol a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gyda'i gilydd.*
>
> *Fel gyda holl gynigion Biliau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad hawliau dynol llawn cyn ei gyflwyno, a gwneir hyn fel rhan o'r ystyriaeth o ran cymhwysedd deddfwriaethol. Rydym yn fodlon bod darpariaethau'r Bil hwn yn cydymffurfio â hynny.*
>
> *Mae Pennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi crynodeb o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygiad y Bil. Cyhoeddwyd yr asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol ar gyfer y Bil hwn yn yr Asesiad Effaith Integredig*[18] *ar wefan Llywodraeth Cymru pan gyflwynir y Bil ar 15 Gorffennaf – mae hyn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant."*[19]

## Ein barn ni

**15.** Rydym yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet a'r Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

---

[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [85]
[18] Llywodraeth Cymru, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): asesiad effaith, 15 Gorffennaf 2024
[19] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 1

**16.** Rydym hefyd yn nodi cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad hawliau dynol "llawn" ar gyfer y Bil ac, yn benodol, wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Bil sy'n ymddangos ar ei wefan.

**17.** Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni a oedd asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r Bil i hawliau dynol wedi ystyried yr hawliau a ddiogelir gan yr ECHR, yn enwedig Erthygl 2 o Brotocol 1, ac Erthygl 14. Er ein bod yn cydnabod bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru[20] yn ystyried effaith y Bil yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, nid yw'n ymddangos ei fod yn cyfeirio at yr ECHR. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd yn gwneud y fath gyfeiriad chwaith, ac am y ddau reswm hyn credwn y dylid darparu eglurhad pellach ar y mater hwn.

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu unrhyw asesiad a wneir gan Lywodraeth Cymru o ymgysylltiad y Bil â'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac, yn benodol, Erthygl 2 o Brotocol 1 i, ac Erthygl 14 o, y Confensiwn.

**18.** Fel y nodwyd o'r blaen[21], credwn y dylid cynnwys asesiad o ymgysylltiad Bil â'r hawliau a ddiogelir gan yr ECHR fel mater o drefn o fewn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ac y dylai'r asesiad hwnnw hefyd nodi unrhyw gamau a gymerwyd i wneud yr ymgysylltiad hwnnw'n gymesur. Credwn y byddai dilyn y dull hwn o gymorth i Aelodau o'r Senedd wrth iddynt ystyried Bil.

**Casgliad 1.** Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol ond credwn y dylai'r Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau o'r fath.

[20] Llywodraeth Cymru, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): asesiad effaith, 15 Gorffennaf 2024, Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
[21] Gweler, er enghraifft, casgliad 1 yn yr adroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a chasgliad 1 yn yr adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

# 3. Arsylwadau cyffredinol

## Yr angen am y Bil

**19.** Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg (strategaeth Cymraeg 2050). Gosododd y strategaeth y prif dargedau canlynol:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg i gynyddu o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050.[22]

**20.** Roedd strategaeth Cymraeg 2050 yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau i sbarduno "newidiadau trawsnewidiol", ac un ohonynt oedd:

> *"Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith."*[23]

**21.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, ers cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050:

> *"Mae nifer o gamau rhagweithiol wedi eu cymryd … ac mae'r seilwaith sy'n cefnogi'r Gymraeg wedi cryfhau mewn sawl agwedd. Y Bil hwn yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i gael ei gyflwyno at ddibenion gwireddu amcan hirdymor y strategaeth, sef sicrhau hyfywedd y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau i ddod."*[24]

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud, er bod rhai llwyddiannau wedi'u cyflawni ers cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050[25], fod canlyniadau cyfrifiad 2021[26] wedi tynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru

---

[22] Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Gorffennaf 2017
[23] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Gorffennaf 2017, tudalen 12
[24] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1
[25] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2
[26] Amcangyfrifodd canlyniadau cyfrifiad 2021 fod 538,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef gostyngiad o tua 23,700 (1.2 y cant) ers cyfrifiad 2011.

"weithredu'n bwrpasol, ac mae'n briodol cymryd camau pellach i'r perwyl hwn drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol."[27]

**23.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud:

> *"… mae'r Bil yn cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o newid sy'n gofyn am weithredu ar sawl lefel. Ac er bod gan ddeddfwriaeth gyfraniad pwysig i'w chwarae wrth osod y seiliau ar gyfer gwireddu'r newid hwn, mae'n bwysig nodi mai un rhan o'r darlun yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Maes o law, byddwn yn cyflwyno darnau o is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal, bydd gan weithgareddau ac ymyraethau eraill megis polisïau ar draws y maes addysg, ariannu, ymgysylltu a newid ymddygiad gyfraniad allweddol i'w chwarae."*[28]

**24.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ar wahân:

> *"… nad y Bil hwn yw'r man cychwyn. Dros flynyddoedd lawer, rydyn ni wedi sefydlu seilwaith anstatudol sydd wedi magu ei blwyf, ac wedi cefnogi'r Gymraeg yn y sector addysg a thu hwnt. Mae camau statudol eisoes wedi eu cymryd hefyd, gyda chyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Mae'r rheoliadau hyn a chyfundrefn y CSCA wedi trawsnewid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg, a rhaid inni adeiladu ar y cynnydd hwnnw sydd eisoes wedi ei wneud."*[29]

**25.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cyfeirio, ymhlith deddfwriaeth berthnasol arall[30], at *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* (Deddf 2013)[31]. Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA, neu WESP yn Saesneg) sy'n cynnwys cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal, a gwella safonau

[27] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3
[28] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.7
[29] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.13
[30] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.16 i 3.30
[31] Ar gael yn https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents/welsh

addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal.[32] Mae'r Bil yn hepgor y darpariaethau hyn yn Neddf 2013, ac yn eu disodli â darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg. O ran y darpariaethau hyn, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn "adeiladu ar y cynnydd sydd wedi ei wneud" gan y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.[33]

**26.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi beth mae'r Bil yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w wneud na all ei wneud o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Roedd ei ymateb fel a ganlyn:

> *"Bydd y Bil yn darparu fframwaith cydlynol a chyfeiriad clir i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ein nod ar gyfer 2050.*
>
> *Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae dyletswydd o'r fath ar wyneb y Bil yn darparu eglurder a chydlyniant yn ein dull cenedlaethol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Ochr yn ochr â'r dull newydd hwn, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg. Mae gosod y ddyletswydd hon ar wyneb y Bil yn dangos y bydd y Cod hefyd yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y fframwaith deddfwriaethol presennol.*
>
> *Bydd cyflwyno system statudol ar gyfer categorïau iaith ysgolion a'r gofyniad i ysgol gael cynllun cyflawni addysg Gymraeg, o gymharu â'r canllawiau anstatudol presennol ar gategorïau iaith ysgolion, yn allweddol i ysgogi ysgolion i gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg, pan fo hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd y cynllun yn cryfhau'r trefniadau atebolrwydd a'r gefnogaeth benodol y gellir ei darparu gan awdurdodau lleol i sicrhau bod cynnydd digonol yn cael ei wneud tuag at eu targedau CSCA a osodir yn y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd y categorïau statudol, drwy reoliadau, yn pennu isafswm darpariaeth addysg Gymraeg ochr yn ochr â'r nodau dysgu Cymraeg a nodir yn y Bil.*

[32] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.19
[33] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.20

*Bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau cenedlaethol statudol yn ogystal â thargedau ar awdurdodau lleol i'w cyrraedd drwy eu Cynlluniau Strategol. Bydd hyn yn pontio'r bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng targed strategaeth Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg a chyflawni'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar lefel awdurdodau lleol.*

*Mae'r Bil hefyd yn creu corff statudol i gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso eu cynnydd, fel bod mwy o bobl (o bob oed) yn dysgu'r iaith. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesurau deddfwriaethol mewn perthynas â'r rôl hon. Mae creu'r Athrofa fel corff statudol drwy'r Bil hwn felly yn darparu sefydlogrwydd ac agwedd hirdymor at ddysgu'r Gymraeg gydol oes."*[34]

**27.** Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, mewn gohebiaeth, esbonio pam mae saith mlynedd wedi mynd heibio rhwng cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050 a gosod y Bil. Mewn ymateb, dywedodd wrthym:

*"Er mai'r Bil hwn yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i'w gyflwyno at ddiben gwireddu amcan hirdymor y strategaeth, mae'n bwysig nodi hefyd nad y Bil hwn yw'r man cychwyn. Fe wnaethom benderfyniad bwriadol i wneud newidiadau yn raddol i'r system gam wrth gam i adeiladu ar yr ewyllys da tuag at yr iaith ac i ddod â phobl gyda ni. O'r herwydd, mae llawer o ddarpariaethau'r Bil yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud.*

*Fe wnaethom gyflwyno canllawiau anstatudol ar gategorïau iaith ysgolion yn 2021, ac mae'r categorïau hynny wedi'u rhoi ar waith yn y CYBLD*[35] *ers mis Ionawr 2024. Wrth gyflwyno'r canllawiau anstatudol hynny, roedd rhagair y Gweinidog yn nodi y byddem yn ystyried manteision rhoi'r categorïau ar sail statudol dros y blynyddoedd i ddod.*

*Er mai'r Bil hwn yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol gyntaf sydd wedi ei chyflwyno ers strategaeth Cymraeg 2050, mae camau*

[34] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 2
[35] Mae'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) yn casglu data ar lefel disgyblion ac ysgolion a ddarperir gan ysgolion a gynhelir.

> *statudol wedi'u cymryd hefyd yn sgil cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. …*
>
> *Gan adeiladu ar gamau anstatudol a statudol sydd wedi eu cymryd ers cyflwyno Cymraeg 2050, credwn mai nawr yw'r amser i gyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon fel y cam naturiol nesaf wrth inni weithio i wireddu ein huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr."*[36]

## Ymgynghoriad ar gynigion y Bil

**28.** Ym mis Mawrth 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil ar addysg Gymraeg (y Papur Gwyn).[37]

**29.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> *"Mae darpariaethau'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn seiliedig ar gynigion y Papur Gwyn a'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau'r ymgynghoriad hwnnw. Fodd bynnag, mae'n werth tynnu sylw at ddarpariaeth yn Rhan 1*[38] *nad oedd yn rhan o ymgynghoriad y Papur Gwyn, ac a oedd yn ddatblygiad polisi newydd yn ystod y cyfnod o ddrafftio'r Bil."*[39]

**30.** Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi'r cyfiawnhad a ganlyn dros hynny:

> *"Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cyd-fynd ar y cyfan â'r cynigion a nodir yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn, fel y nodir uchod. Yn ogystal â hynny, ac o ystyried bod ymgysylltu eang a manwl wedi digwydd yn y meysydd polisi dros gyfnod hir, ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft."*[40]

**31.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet i ni mewn tystiolaeth lafar pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Fil drafft:

---

[36] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 3
[37] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, Mawrth 2023
[38] Mae'r ddarpariaeth dan sylw yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg a bennir o dan adran 26 o *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, sydd wedi'i gynnwys yn adran 4 o'r Bil.
[39] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.52
[40] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.98

> *"This has been a Bill in gestation for a long time. The original ideas that culminate in the Bill were there in documents that were published and discussed prior to the pandemic, and the pandemic had the same impact on capacity to legislate here as it did on so many other things. We did not choose to publish a draft Bill because of the depth of discussion that had already been carried out, and preferred instead to publish a White Paper. … A draft Bill would have pushed the legislative timetable even further towards the end of this Senedd term, and I think that would have eroded confidence that we could complete its Stages during this Senedd term."*[41]

## Diffyg diffiniad o siaradwr Cymraeg

**32.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio i ni pam nad yw diffiniad o siaradwr Cymraeg wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil. Mewn ymateb, dywedodd wrthym y byddai Llywodraeth Cymru'n aros gyda'r "egwyddor o hunanddiffiniad", am y rheswm canlynol:

> *"… it's a fundamental principle, which is now reflected in this Bill, that if Welsh belongs to everybody, then it is for individuals to say whether or not they believe themselves to be speakers of the language, rather than for the Government to instruct them as to whether they are or not, and that does lead you into some difficulties of how do you define who is a Welsh speaker or not."*[42]

## Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth

**33.** Mae'r Bil yn cynnwys 55 o adrannau, wedi'u rhannu'n chwe Rhan, a dwy Atodlen.

**34.** Mae tablau 5.1 a 5.2 yn y Memorandwm Esboniadol yn rhoi crynodeb o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil, sy'n cynnwys y pwerau canlynol ar gyfer Gweinidogion Cymru:

---

[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [88] i [89]
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [127] i [128]

- 26 pŵer i wneud rheoliadau[43];
- 1 pŵer i wneud gorchymyn cychwyn;
- 3 phŵer i roi cyfarwyddydau[44];
- 2 bŵer i gyhoeddi canllawiau; ac
- 1 pŵer i gyhoeddi cod.

**35.** Yn ôl Tabl 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil hefyd yn cynnwys:

- 2 bŵer i awdurdod lleol unigol roi cyfarwyddydau[45];
- 1 pŵer i'r Athrofa Dysgu Cymraeg roi cyfarwyddyd; ac
- 1 pŵer i'r Athrofa Dysgu Cymraeg gyhoeddi rheolau.

**36.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth.[46] Ymhelaethodd fel a ganlyn:

> *"There are subordinate legislation powers in the Bill, but the majority of them are for use through the affirmative procedure. There is more on the face of the Bill than the White Paper suggested. So, we have moved more things into the primary legislation than was originally planned, and that was in response to some of the points raised in the White Paper consultation. I think that those powers that are subject to the negative procedure—I think there are eight of them in the Bill all together—genuinely do conform to the guidance that the Welsh Government has published—that's to say that they are technical in nature, and administrative in nature—and where there are powers in the Bill to proceed via regulation, any of*

---

[43] Mae Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn rhestru 27 pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru, ond mae un o'r pwerau hyn o fewn adran 56 o *Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*, yn hytrach nag yn y Bil hwn.
[44] Mae Tabl 5.2 yn y fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol yn rhestru pedwar pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau, ond mae un o'r rhai a restrir (o fewn adran 16(6)(c)) yn bŵer i awdurdod lleol.
[45] Mae Tabl 5.2 yn y fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol yn rhestru un pŵer i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd, ond mae un o'r pwerau a restrir ar gyfer Gweinidogion Cymru (o fewn adran 16(6)(c)) yn bŵer i awdurdod lleol.
[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [159]

*those that have a substantive impact will be subject to further scrutiny by the Senedd through its own subordinate legislation procedures."*[47]

**37.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad yw'r Bil yn darparu cyswllt uniongyrchol ar ei wyneb rhwng y targed statudol a gynhwysir yn Rhan 1 o'r Bil a'r nodau dysgu Cymraeg a gynhwysir yn Rhan 3, fel yr awgrymwyd yn y Papur Gwyn[48], yn hytrach na gadael materion o'r fath i reoliadau. Mewn ymateb, dywedodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Mae Rhan 1 yn gosod y filiwn o siaradwyr ar wyneb y Bil fel targed, ac mae hyn yn golygu y buasai'n rhaid i bawb sy'n gadael y system addysg fod yn siaradwyr Cymraeg, ac, felly, mi fuasai hynny'n gorfod bod yn 'siaradwyr annibynnol'. Felly, mae yna linc rhwng y targed o filiwn a symud y system ar hyd y continwwm iaith."*[49]

**38.** Ar dri achlysur gwahanol, mae'r datganiad o fwriad y polisi yn cyfeirio at "gydberthynas" rhwng y pwerau neu'r dyletswyddau mewn gwahanol adrannau o'r Bil.[50] Pan ofynnwyd iddo egluro natur y gydberthynas hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y canlynol am y term:

*"… it is there simply to make sure that different strands across the Bill are drawn together when they have a cumulative impact on the policy intention that the Government is pursuing, because this is a Bill with five different Parts. They are interrelated in a number of different ways, and for the sake of trying to make sure that the policy intent is clearly conveyed to those who are interested in it, we used that term in that sense."*[51]

**39.** Rhoddodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet esboniad pellach ac enghraifft o'r gydberthynas hon:

---

[47] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [159]
[48] Mae paragraff 30 o'r Papur Gwyn yn datgan "y deilliant ieithyddol rydym yn ceisio ei gyflawni – ac sy'n egwyddor drefniadol i'r cynigion yn y papur hwn, yw sicrhau, erbyn 2050, fod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus. Rydym yn diffinio hynny, fel isafswm, ar lefel sy'n gyfystyr â B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Ein bwriad yw clymu'r lefel ddisgwyliedig i lefel o fewn y continwwm sgiliau Cymraeg."
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [125]
[50] Gweler tudalennau 4, 5 a 9 yn y datganiad o fwriad y polisi
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [174]

> *"… it's about the interrelationship and the sequencing … between the different Parts. So, Part 2, which is the code to describe the common European framework, then needs to be in place for other bits of the Bill to work."*[52]

**40.** Yn ôl y datganiad o fwriad y polisi, mae llawer o bwerau gwneud rheoliadau'r Bil wedi'u cynnwys er mwyn "diogelu'r Bil ar gyfer y dyfodol".[53] Pan ofynnwyd iddo gyfiawnhau cynnwys y pwerau hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mewn gohebiaeth:

> *"Mae cynllunio ieithyddol yn ymdrech hirdymor, a bydd ein taith tuag at 2050 yn gofyn inni adolygu'r cynnydd a wneir ac addasu dros amser wrth i amgylchiadau newid."*[54]

**41.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu "cymaint o wybodaeth â phosibl" yn y datganiad o fwriad y polisi. Aeth ymlaen wedyn i ailadrodd yr esboniadau a ddarparwyd yn y datganiad ar gyfer cynnwys y chwe phŵer yn y Bil nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i'w defnyddio ar hyn o bryd.[55] Rydym yn ystyried rhai o'r pwerau hyn ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

**42.** Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, mewn gohebiaeth, esbonio pam nad yw'r Bil yn cynnwys dyddiadau dechrau'r cynlluniau neu'r cyfnodau cynllunio y mae'n eu sefydlu.[56] Gwnaethom hefyd ofyn, yn absenoldeb y cyfryw ddyddiadau ar wyneb y Bil, a oedd perygl na ellir arfer y pwerau deddfu perthnasol, ac na fyddai'r darpariaethau perthnasol yn cael eu cychwyn. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Nid oes perygl na chaiff y pwerau hyn eu harfer. Mae cynlluniau cyflawni ysgolion a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol yn elfennau allweddol yng ngweithrediad y Bil.*
>
> *Rwyf o'r farn ei bod yn briodol bod Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad cychwyn ar gyfer cyfnod 5 mlynedd cyntaf y*

---

[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [175]
[53] Gweler tudalennau 20, 24 a 35 yn y datganiad o fwriad y polisi
[54] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 4
[55] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 4
[56] Yn benodol, mewn perthynas ag adrannau 14(3), 29(1) a 44(8) o'r Bil.

*cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol mewn rheoliadau (adran 29(1)), gan fod y gwaith o'u paratoi yn dibynnu ar ddyddiad cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gerbron y Senedd cyn 31 Gorffennaf 2028 (adran 26(3)). Dyma'r dyddiad hwyraf ar gyfer gosod y Fframwaith Cenedlaethol. Os bydd amgylchiadau yn caniatáu, gellir ei osod yn gynt na hynny. Mae'n briodol felly cynnig hyblygrwydd wrth osod y dyddiad cyntaf ar gyfer y cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol mewn is-ddeddfwriaeth.*

*Yn yr un modd, rwyf o'r farn ei bod yn briodol caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu'r flwyddyn ysgol y mae'r cynllun cyflawni ysgol cyntaf yn dechrau ynddi drwy reoliadau (adran 14(3)) i sicrhau bod y categorïau iaith statudol yn weithredol (hynny yw, swm y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pob categori o dan adran 10(1)) a chaniatáu i'r cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol perthnasol gael ei ystyried (a.14(2)(a)).*

*Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol baratoi cynllun strategol, felly bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer yn adran 44(8)(a) sy'n manylu ar y cyfnod cynllunio cyntaf. Bydd cyfnodau cynllunio dilynol yn para 3 blynedd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n pennu cyfnod gwahanol o dan y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 44(8)(b). Mae rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Gweinidogion bennu'r cyfnodau cynllunio ar gyfer yr Athrofa yn ôl yr angen."* [57]

**43.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud, fel y mae'r enghreifftiau hyn yn ei ddangos, "mae nifer o gyd-ddibyniaethau o ran dilyniant gwahanol agweddau ar y Bil"[58], a rhoddodd linell amser ddangosol i ni ar gyfer y broses weithredu arfaethedig.[59]

[57] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 10
[58] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 10
[59] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, tudalennau 13 i 15

## Ein barn ni

**44.** Rydym yn nodi esboniadau Llywodraeth Cymru ynghylch pam mae angen y Bil, fel y darperir yn y Memorandwm Esboniadol ac yr amlinellwyd i ni gan Ysgrifennydd y Cabinet.

**45.** Fodd bynnag, nodwn hefyd – er bod strategaeth Cymraeg 2050 yn cyfeirio at yr angen am newidiadau "trawsnewidiol" – ei bod wedi cymryd dros saith mlynedd i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i geisio cyflawni newidiadau o'r fath.

**46.** Rydym hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu eang a manwl ar y cynigion polisi sy'n sail i'r Bil dros gyfnod hir. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym yn yr un modd fod y Bil wedi bod yn yr arfaeth ers amser maith.

**47.** Felly, nid yw'n glir i ni pam nad oedd modd i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil yn ystod y cyfnod hwn. Rydym eisoes wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori ar Filiau drafft fel mater o arfer deddfwriaethol da, ac wedi rhannu ein cred y dylid cynnwys amser yn amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i ganiatáu ymgynghoriad o'r fath fel mater o drefn.

**48.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai ymgynghori ar Fil drafft wedi achosi oedi i'w amserlen ddeddfwriaethol, a fyddai wedi erydu hyder y gellir cwblhau ei Gamau yn ystod tymor y Senedd hon. Fodd bynnag, credwn y dylai amser fod wedi'i neilltuo'n gynharach yn amserlen y Bil er mwyn gallu rhannu darpariaethau drafft i'w cyhoeddi yn hytrach na chyhoeddi'r Papur Gwyn ym mis Mawrth 2023, er mwyn galluogi ymgynghori eang ar fersiwn ddrafft o'r Bil cyn ei gyflwyno. Ar ben hynny, credwn y byddai ymgynghori ar Fil drafft wedi cyd-fynd â'r hyn a ddisgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet fel penderfyniad Llywodraeth Cymru i adeiladu dull cynyddrannol o wneud newidiadau yn y maes polisi hwn; penderfyniad rydym yn ei gydnabod.

**49.** Rydym hefyd yn cydnabod esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad yw'r Bil yn cynnwys diffiniad o siaradwr Cymraeg, yn unol ag egwyddor Llywodraeth Cymru bod y Gymraeg yn "perthyn i bawb".

**50.** Fodd bynnag, credwn fod y cwestiwn o bwy sy'n siaradwr Cymraeg yn ganolog i nodau'r Bil, ac mae hepgor diffiniad o'r fath yn peryglu tanseilio pa mor ystyrlon fydd rhai o'i ddarpariaethau craidd.

**51.** Nodwn fod y Bil – yn rhinwedd y Tabl yn Atodlen 1 – yn nodi mathau o "ddefnyddwyr Cymraeg" a lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu'r mathau

hynny o ddefnyddwyr Cymraeg. Nid yw'n eglur i ni pam nad yw'r Bil yn defnyddio'r darpariaethau hyn fel sail i unigolion asesu eu gallu ieithyddol at ddiben cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, yn hytrach na darparu ar gyfer gwybodaeth o'r fath mewn canllawiau a rheoliadau.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad yw'r Bil yn defnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu'r mathau hynny o ddefnyddwyr Cymraeg, fel y'u cyflwynir yn y Tabl yn Atodlen 1, fel sail i unigolion asesu eu gallu ieithyddol at ddiben cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn unol â darpariaethau yn Rhan 1.

**52.** Ar ben hynny, rydym yn pryderu y gallai cynnwys dau derm gwahanol yn y Bil – "siaradwyr Cymraeg" yn Rhan 1 a "defnyddwyr Cymraeg" yn Rhannau 2 a 3 – arwain at ddryswch posibl, yn enwedig gan y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion asesu eu gallu ieithyddol eu hunain. Credwn y dylid darparu eglurder ynghylch lefel y manylion a fydd yn cael eu cynnwys yn y canllawiau a'r Cod sydd i'w cyhoeddi o dan y Bil i helpu i gyfyngu ar unrhyw ddryswch.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai cynnwys y termau "siaradwyr Cymraeg" a "defnyddwyr Cymraeg" yn y Bil arwain at unrhyw ddryswch ac, os felly, nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gyfyngu ar hyn.

**53.** Nodwn hefyd sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet yn nhermau cyffredinol ynghylch y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, a'i fod yn fodlon â'r cydbwysedd hwn.

**54.** Rydym yn fodlon ar y cyfan â'r cydbwysedd hwn, ac yn yr un modd rydym yn croesawu ar y cyfan lefel y manylion a ddarperir yn y datganiad o fwriad y polisi.

**55.** Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu pam mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pwerau gwneud rheoliadau er mwyn "diogelu'r Bil ar gyfer y dyfodol", ac yn nodi bod nifer o bwerau o'r fath yn y Bil nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i'w defnyddio ar hyn o bryd. Rydym yn myfyrio ar enghreifftiau penodol o bwerau o'r fath yn y Bil ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

**56.** Nid yw'n glir i ni chwaith pam nad yw'r Bil yn cynnwys rhai darpariaethau ar ei wyneb a fyddai'n adlewyrchu cynigion polisi a oedd yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, yn benodol: absenoldeb cysylltiad uniongyrchol rhwng y targed statudol a gynhwysir yn Rhan 1 y Bil a'r nodau dysgu Cymraeg a gynhwysir yn Rhan 3. Credwn y dylid darparu eglurder pellach ynghylch pam y bydd mater o'r fath bellach yn cael ei adael i reoliadau, o dan y Bil fel y'i drafftiwyd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad yw'r Bil yn cynnwys cysylltiad clir ac uniongyrchol ar ei wyneb rhwng y targed statudol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a gynhwysir yn Rhan 1 o'r Bil a'r nodau dysgu Cymraeg a gynhwysir yn Rhan 3, fel y cynigir yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil.

**57.** Nodwn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad yw'r Bil yn cynnwys ar ei wyneb y dyddiadau cychwyn ar gyfer y cynlluniau neu'r cyfnodau cynllunio y mae'n eu sefydlu. Yn yr un modd, nodwn farn Ysgrifennydd y Cabinet nad oes perygl na ellir arfer y pwerau perthnasol yn y Bil, a bod y cynlluniau cyflawni ysgolion a'r cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg yn "elfennau allweddol" wrth weithredu'r Bil.

**58.** Fodd bynnag, yn ôl yr amserlenni dangosol a rannwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, bydd y pwerau i weithredu'r Bil yn cael eu harfer gan lywodraeth yn y dyfodol. Felly, nid ydym yn cytuno â barn Ysgrifennydd y Cabinet nad oes perygl na fydd pwerau o'r fath yn cael eu harfer.

**59.** Credwn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys ar wyneb y Bil ddyddiadau penodol erbyn pryd y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau deddfu o dan adrannau 14(3)(a), 29(1)(a) a 44(8)(a) i nodi pryd y bydd y cyfnod cyntaf o gynlluniau cyflawni ysgolion a chynlluniau strategol lleol, a'r cyfnod cynllunio cyntaf ar gyfer cynllun strategol yr Athrofa Dysgu Cymraeg, yn dechrau. Credwn fod hyn yn bwysig o ystyried bod y rhain yn "elfennau allweddol" wrth weithredu'r Bil, fel y nodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, ac y byddant yn rhoi sicrwydd i gyrff a fydd yn ganolog i weithredu'r Bil.

**Argymhelliad 5.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a ddylid cynnwys ar wyneb y Bil ddyddiadau penodol erbyn pryd y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â phennu dyddiadau dechrau'r cyfnodau cyntaf ar gyfer cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg mewn ysgolion a chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, a'r cyfnod cynllunio cyntaf ar gyfer cynllun strategol yr Athrofa Dysgu Cymraeg.

# 4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil

## Rhan 1 (Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg)

**60.** Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys pedair adran.

**61.** Mae Adran 1 yn darparu sail statudol ar gyfer targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gynnwys yn strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru (fel y'i cyhoeddwyd o dan adran 78 o Ddeddf 2006[60]).

**62.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio diben yr adran hon. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"What the Bill does is to give it [the Welsh Government's target] statutory force, and, in that sense, statutory stature as well; it just reinforces the importance of it. … Making it statutory, I think, ensures that we can futureproof it as a target, and give a clear context to support future decision making."*[61]

**63.** Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi canlyniadau methu â chyflawni'r targed. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"… the consequences are reputational rather than legal, because I don't think it's right to place legal jeopardy on the shoulders of people who are not in control of the outcome that you are seeking to achieve. There are so many things that Ministers can do and so much that the Senedd can do, but in the end, you are not in charge of all the different factors that would contribute to whether or not that target is achieved."*[62]

**64.** Mae adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys materion penodol o fewn adroddiad a gyhoeddir o dan adran 78(8) o Ddeddf 2006, ac mae hefyd yn cynnwys mesurau i sicrhau eu bod yn atebol i'r Senedd mewn perthynas â chyflawni targedau penodol.

---

[60] Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/78
[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [91]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [92]

**65.** Mae adran 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â sut i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2. Yn benodol, mae adran 3(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, i ddatgan ffynonellau data sydd i'w defnyddio i wneud y cyfrifiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r adran hefyd yn datgan bod rhaid ystyried data o'r cyfrifiad wrth wneud cyfrifiadau o'r fath.

**66.** Dywed y Memorandwm Esboniadol ei bod yn briodol cynnwys yr wybodaeth hon mewn rheoliadau "i roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru amrywio'r ffynonellau data dros amser."[63]

**67.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach y rhesymeg sy'n sail i adran 3(1):

> *"… mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion defnyddio ffyrdd o ddata newydd, posibiliadau newydd, sy'n dod atom ni dros yr amser sydd i ddod. Rŷn ni wedi dibynnu ar y cyfrifiad, ond rŷn ni'n gwybod dyw dyfodol y cyfrifiad ddim yn hollol glir. Yn y Llywodraeth ddiwethaf, roedd yna lot o bethau roedden nhw wedi'u dweud am ailwampio'r cyfrifiad i gyd. So, rŷn ni wedi creu pwerau yn y Bil i ddefnyddio'r cyfrifiad, fel rŷn ni wedi, pan fo hwnnw ar gael, ond hefyd i ddefnyddio ffynonellau eraill o ddata i'n helpu ni yn y maes. Fel mae'r pwyllgor yn gwybod, mae lot o wahaniaeth rhwng y cyfrifiad ar un ochr a'r ffigurau eraill sy'n dod mas bob blwyddyn. So, mae'r Bil yn ein helpu ni achos gallwn ni wneud mwy yn y dyfodol i ddefnyddio'r data ble fydd posibiliadau newydd yn codi."*[64]

**68.** Mae adran 3(2)(a) yn datgan y bydd gallu Cymraeg unigolyn 16 oed a hŷn yn seiliedig ar hunanasesiad, ac mae adran 3(2)(b) yn datgan y bydd gallu Cymraeg plentyn o dan 16 oed yn cael ei benderfynu naill ai ar sail hunanasesiad, neu asesiad gan riant neu ofalwr, neu unrhyw ddull arall a bennir mewn rheoliadau. Byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynnwys y pŵer hwn yn briodol i "roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i addasu i ddulliau newydd dros amser."[65]

**69.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, mewn gohebiaeth, esbonio'r rhyngweithio rhwng adrannau 3(1) a 3(2) y Bil. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

---

[63] Memorandwm Esboniadol, tudalen 82
[64] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [132]
[65] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 82 i 83

> *"Rhaid penderfynu a yw person yn siaradwr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2 yn unol â darpariaethau adran 3(2). Rhaid i reoliadau o dan adran 3(1) bennu'r data sydd i'w ddefnyddio i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2. Mae adran 3(2) yn gyfyngiad ar y pŵer yn adran 3(1) fel bod rhaid cysylltu data a ddefnyddir i gyfrif siaradwyr Cymraeg ag ystyr siaradwr Cymraeg yn 3(2).*
>
> *Er enghraifft, mae penderfynu a yw person 16 oed neu hŷn yn siaradwr Cymraeg i'w benderfynu ar sail hunanasesiad (adran 3(2)(a)). Byddai'n rhaid felly i'r data a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 3(1) i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn gynnwys y rheini sydd wedi hunanasesu eu hunain fel siaradwyr Cymraeg."*[66]

**70.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd fod adran 3(1) o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, a bod adran 3(2)(b) yn darparu pŵer i wneud rheoliadau, ac y byddai cyfeiriadau gwallus at y rhain yn y fersiwn Saesneg o'r datganiad o fwriad y polisi yn cael eu cywiro.[67]

## Ein barn ni

**71.** Nodwn y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil.

**72.** Yn benodol, nodwn ddiben adran 1 o'r Bil, fel y'i esboniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad oes unrhyw ganlyniadau wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil o beidio â chyrraedd y targed statudol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn seiliedig ar y ffaith nad yw llawer o'r ysgogiadau i gyrraedd targed o'r fath yn nwylo'r Senedd na Gweinidogion Cymru.

**73.** Rydym hefyd yn cydnabod yr esboniad a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet o'r rhyngweithio rhwng adran 3(1) a 3(2) o'r Bil.

---

[66] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 6
[67] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 5

## Adrannau 8 i 10 (Addysg Gymraeg a chategorïau iaith ysgolion)

**74.** Mae adran 8 o'r Bil yn rhoi trosolwg o Ran 3 o'r Bil, ac yn datgan, at ddibenion y Rhan honno, fod y term "addysg Gymraeg" yn golygu addysgu Cymraeg, ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgol a gynhelir, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol.

**75.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam mae'r Bil yn defnyddio'r term "addysg Gymraeg" yn lle'r term mwy sefydledig[68] "addysg cyfrwng Cymraeg". Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae'r Bil yn cefnogi addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rŷn ni eisiau gweld mwy o blant yng Nghymru yn dod i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r Bil yn gefnogol o hynny. Ond hefyd rŷn ni'n gwybod, ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o blant yng Nghymru yn cael eu haddysg, mwy neu lai, drwy'r Saesneg, ac mae'r Bil hefyd yn canolbwyntio arnyn nhw.*
>
> *So, alongside the support that the Bill gives to Welsh-medium education, we use this broader term of 'Welsh language education', because we will not succeed in getting to that 1 million speakers unless we can turn out, from primarily English-medium schools, children who are better able to use the Welsh language than they are now, 30 years after it became a compulsory subject in mostly English schools. … the term is there because it is broader than Welsh-medium education, although the Bill is absolutely supportive of Welsh-medium education and the wish to see that an expanded part of our future."*[69]

**76.** Mae adran 9(1) yn datgan y dynodir categori iaith i bob ysgol, yn unol â Rhan 3 o'r Bil, sy'n pennu faint o addysg Gymraeg a ddarperir yn yr ysgol, a "nod dysgu Cymraeg" yr ysgol.

**77.** Mae adran 9(2) yn datgan mai'r categorïau iaith yw:

- "Prif Iaith – Cymraeg";

[68] Mae Deddf 2013, er enghraifft, yn cyfeirio at "addysg cyfrwng Cymraeg".
[69] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [134] i [135]

- "Dwy Iaith"; a
- "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

**78.** Mae adran 9(3) yn datgan y caniateir dynodi mwy nag un categori iaith ar gyfer ysgol. Yn ôl y datganiad o fwriad y polisi, mae'r gallu i ddynodi mwy nag un categori i ysgol yn angenrheidiol "er mwyn darparu eglurder i randdeiliaid."[70]

**79.** Mae is-adran (3) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ysgol o'r fath, gan gynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso Rhan 3 o'r Bil gydag addasiadau. Yn ôl y datganiad o fwriad y polisi, nid yw'n briodol i ddarpariaeth o'r fath gael ei chynnwys ar wyneb y Bil am y ddau reswm canlynol:

> *"Mae dynodi mwy nag un categori iaith i ysgol yn fater amlhaenog. Gall fod yn adlewyrchiad teg o'r ddarpariaeth addysg, gall fod yn fodd rhagweithiol o symud ysgol i gategori uwch yn raddol, neu mae'n bosibl y gallai fynd yn groes i'r uchelgais polisi o gynyddu addysg Gymraeg drwy ganiatáu categori is lle nad yw hynny'n ddymunol. Mae'r lefel hon o fanylion yn fwy addas i'w chynnwys mewn rheoliadau.*
>
> *Mae'n briodol ymgynghori'n ehangach gyda'r sector i glywed safbwyntiau'r sawl a fydd yn gweithredu'r polisi. Gellir gwneud hyn yr un pryd ag yr ymgynghorir maes o law ar swm y ddarpariaeth addysg Gymraeg ym mhob categori o dan adran 10(1)."*[71]

**80.** Mae adran 10 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau – yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft – sy'n pennu faint o addysg Gymraeg sy'n cael ei darparu ar gyfer pob categori. Rhaid mynegi'r swm fel ystod, gan gyfeirio at addysg Gymraeg fel canran o'r addysg a'r hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn ystod sesiynau ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol. Yn unol ag adran 10(3), ni chaniateir pennu isafswm yr amrediad ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ar lai na 10%.

---

[70] Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 11
[71] Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 11

**81.** Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y cyfiawnhad canlynol i ni dros gynnwys y pŵer o fewn adran 10:

> *"… rŷn ni wedi rhoi 10 y cant ar wyneb y Bil, so dyna ble ŷn ni'n dechrau. Yn y dyfodol, os bydd hwnna yn cael ei newid, dwi ddim yn meddwl mai'r ffordd orau fyddai mynd nôl at Fil newydd i newid y ffigur yna. So, mae hwnna'n mynd i gael ei wneud trwy regulations ac yn y blaen, ac mae hwnna jest yn rhywbeth ymarferol. Dwi'n cytuno ei fod e'n creu rhyw fath o sialens ar hyn o bryd, achos bydd hwnna'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol. Ond hwnna yw'r ffordd i gadw'r Bil yn fyw, ac mae'r Bil yn mynd i gael effaith ar y maes addysg a chyfleon i blant dros ddegawd a mwy. Dyna'r cyfle i ni roi pethau yn eu lle i'n helpu ni i wneud hynny yn y tymor hir, a dyna pam mae'n bwysig cadw rhyw fath o hyblygrwydd trwy is-ddeddfwriaeth."*[72]

**82.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd sut y bydd y ddarpariaeth yn adran 10(3) yn gweithio yn ymarferol:

> *"The obligation is on the school not on the individual, so the school must ensure that a minimum of 10 per cent of the compulsory part of the school day is devoted to the Welsh language. … that doesn't mean that the whole of that has to be teaching Welsh; it can be delivering a sports lesson using the Welsh language as the medium of instruction. But it's for the school to achieve that 10 per cent. You can't place that at the level of an individual pupil. Children fall ill. Children are not in school for other reasons as well. … placing the obligation at the school level does allow that bit of leeway to accommodate the requirements of the Bill with the circumstances of an individual child."*[73]

**83.** Yn ôl y datganiad o fwriad y polisi, bydd hi'n "bwysig ymgynghori" ar fanylion y categorïau iaith cyn gwneud rheoliadau o'r fath o dan adran 10.[74] Yng ngoleuni hyn, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet mewn gohebiaeth esbonio pam nad yw dyletswydd i ymgynghori wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil. Roedd ei ymateb fel a ganlyn:

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [166]
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [95]
[74] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 13

> *"Yn gyffredinol, nid ydym yn gosod dyletswyddau mewn deddfwriaeth i ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth. Bydd gofynion cyfraith gyhoeddus gyffredinol yn berthnasol. Mae'n arfer safonol gan Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n gyhoeddus lle bo'n briodol i geisio barn ar is-ddeddfwriaeth – ac ar yr adeg briodol i wneud hynny. Fel yr ydym wedi'i nodi yn y Datganiad o Fwriad Polisi, rydym o'r farn y bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau hyn."*[75]

### Ein barn ni

**84.** Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag adrannau 8 i 10 o'r Bil.

**85.** Rydym hefyd yn nodi esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam mae'r Bil yn cynnwys y term "addysg Gymraeg" yn lle'r term mwy sefydledig "addysg cyfrwng Cymraeg", gan fod nodau'r Bil yn ehangach na chefnogi'r sector addysg cyfrwng Cymraeg.

**86.** Fodd bynnag, o gofio bod y term "addysg cyfrwng Cymraeg" yn cael ei ddeall yn helaeth, credwn y dylai fod sail gadarn i unrhyw newid o'r defnydd o'r term hwnnw mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu â'r Pwyllgor unrhyw asesiad a wneir gan Lywodraeth Cymru ar yr effaith ar ddealltwriaeth o'r gyfraith a'i hygyrchedd sy'n deillio o'r defnydd o'r term "addysg Gymraeg" yn y Bil.

**87.** Rydym yn cydnabod bod y gofyniad na ddylai isafswm amrediad y categori iaith "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" fod yn llai na chyfartaledd o 10% o addysg a hyfforddiant yn ystod sesiynau ysgol dros flwyddyn ysgol wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod cyfiawnhad Ysgrifennydd y Cabinet dros y pŵer i wneud rheoliadau o fewn adran 10 – gan y bydd yn caniatáu hyblygrwydd i ddiwygio'r ffigur hwn wrth i amser fynd yn ei flaen – ac yn cydnabod cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft i reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn.

---

[75] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 7

**88.** Nodwn farn Ysgrifennydd y Cabinet nad yw Llywodraeth Cymru'n gosod dyletswyddau mewn deddfwriaeth i ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth, gan y bydd y "gofynion cyfraith gyhoeddus gyffredinol" yn berthnasol.

## Adran 13 (Rheoliadau ar gategorïau iaith ysgolion)

**89.** Mae adran 13(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion.

**90.** Mae adran 13(2) yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol hefyd, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft:

- diwygio adran 9 er mwyn ychwanegu neu ddiwygio categori iaith; neu
- ddiwygio adran 10(3) er mwyn cynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg."

**91.** Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn rhoi enghraifft o sut y gellir defnyddio'r pŵer yn adran 13(1):

> *"… Gallai hynny fod naill ai gan nad yw'r Bil yn cynnwys holl fanylder y categorïau yn y lle cyntaf, neu mewn ymateb i reoliadau eraill a gaiff eu llunio yn yr un maes i sicrhau bod y categorïau iaith yn parhau'n gyfredol a chydnaws gyda darpariaethau eraill."*[76]

**92.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio beth yw'r cyfyngiadau ar y pŵer yn adran 13(1) i wneud darpariaeth bellach, a pham na ddarperir rhagor o fanylion am sut y gellir ei arfer. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae adran 13 wedi'i chyfyngu gan Ran 3, ac yn benodol gan y darpariaethau yn adran 9. Mae'r pŵer hwn i wneud 'darpariaeth bellach'. O ran yr hyn y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, y bwriad yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau digonol i ymateb i amgylchiadau sy'n newid heb orfod diwygio deddfwriaeth sylfaenol.*

[76] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 17

*Mae adran 13(2) yn nodi'n benodol y diwygiadau posibl y gall fod eu hangen i adran 9 dros amser, ond mae'r pŵer ehangach i wneud darpariaeth bellach yn adran 13(1) yn bŵer i ymhelaethu ar y ddarpariaeth bresennol yn adran 9 – sef rhoi mwy o fanylion am gategorïau iaith."*[77]

**93.** Mae adran 13(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu a ydynt am arfer y pŵer i gynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", o fewn 5 mlynedd i ddyddiad dod i rym y pŵer hwnnw, ac wedi hynny o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n dilyn eu penderfyniad diweddaraf.

**94.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, mewn gohebiaeth, nodi'r bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth hon. Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio a ellid arfer y pŵer mor rheolaidd ag y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu, cyn belled nad oes mwy na 5 mlynedd yn mynd heibio rhwng penderfyniadau ynghylch a ddylid ei arfer. Mewn ymateb, dywedodd wrthym y gellir arfer y pŵer yn adran 13(2)(b) ar unrhyw adeg, ac mai diben adran 13(5) yw rhoi "sicrwydd" y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried arfer y pŵer yn adran 13(2)(b) bob 5 mlynedd.[78]

## Ein barn ni

**95.** Nodwn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam na ddarperir rhagor o fanylion ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r pŵer yn adran 13(1) i wneud darpariaeth bellach ynghylch categorïau iaith ysgolion.

**96.** Rydym yn cydnabod datganiad Ysgrifennydd y Cabinet bod adran 13(2) yn darparu ar gyfer penodoldeb ynghylch yr hyn y gall darpariaethau pellach o'r fath ei gynnwys, sef y caiff rheoliadau ddiwygio adran 9 er mwyn ychwanegu neu ddiwygio categori iaith. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod adran 13(2) yn datgan y caiff rheoliadau ddiwygio adran 10(3) er mwyn cynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg."

**97.** Wrth ystyried y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn adran 13(2), nid yw'n glir i ni o ran pa senarios pellach y gellir eu cipio gan adran 13(1). Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, credwn fod hon yn ddarpariaeth eang ac, yn absenoldeb

[77] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 8
[78] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 9

enghreifftiau o'i ddefnydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, credwn y dylid gosod cyfyngiadau pellach ar y pŵer hwn.

**Argymhelliad 7.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu enghreifftiau o'r mathau o ddarpariaeth bellach y gall rheoliadau a wneir o dan adran 13(1) eu cynnwys.

**Argymhelliad 8.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried pa gyfyngiadau pellach y gellir eu gosod ar y pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach o fewn adran 13(1) a chyflwyno gwelliant priodol i'r Bil.

**98.** Rydym hefyd yn cydnabod cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet y gellir arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13(2)(b) ar unrhyw adeg, ac yn cydnabod ei esboniad mai diben adran 13(5) yw rhoi sicrwydd y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried arfer y pŵer yn adran 13(2)(b) bob 5 mlynedd.

**99.** Yn yr un modd, rydym yn cydnabod bod y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn cael ei chymhwyso i reoliadau a wneir o dan bŵer Harri'r VIII[79] yn adran 13(2) o'r Bil.

## Adrannau 14 a 15 (Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion a chymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg)

**100.** Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol baratoi cynllun mewn perthynas â'r Gymraeg (cynllun cyflawni addysg Gymraeg). Mae is-adrannau (1)(a) i (g) yn manylu ar yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cynllun o'r fath.

**101.** Mae adran 15(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gyflwyno i'w awdurdod lleol ddrafft o'r cynllun cyflawni y mae wedi'i baratoi yn unol ag adran 14, ac mae adran 15(4) yn datgan y caiff yr awdurdod lleol naill ai gymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd, ei gymeradwyo gydag addasiadau, neu wrthod y cynllun cyflawni.

**102.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu unrhyw oblygiadau posibl pe na bai corff llywodraethu ysgol ac awdurdod lleol yn gallu cytuno ar gynllun cyflawni. Mewn ymateb, dywedodd wrthym y byddai Gweinidogion

[79] Mae pŵer Harri'r VIII yn caniatáu i'r weithrediaeth wneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol drwy wneud is-ddeddfwriaeth.

Cymru yn gallu defnyddio eu pwerau presennol o dan Ddeddf 2013[80] "yn y diwedd" mewn achos o'r fath.[81]

### Ein barn ni

**103.** Rydym yn cydnabod cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau presennol o dan Ddeddf 2013 os na all corff llywodraethu ysgol ac awdurdod lleol gytuno ar gynllun cyflawni addysg Gymraeg.

## Adrannau 18 i 20 (Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad dros dro ac esemptiad pellach; ac ysgolion arbennig cymunedol: cynlluniau a dynodi categori iaith)

**104.** Mae adran 18 yn caniatáu i ysgol "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" gyflwyno – o fewn ei chynllun cyflawni cyntaf – gais am esemptiad dros dro i'r gofyniad yn adran 10 i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y categori hwnnw o ysgol (wedi'i osod ar 10% o dan y Bil).

**105.** Mae adran 19 yn caniatáu i ysgol o'r fath gyflwyno cais am esemptiad pellach (hyd at gyfnod o dair blynedd ychwanegol).

**106.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio, pe bai Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 13(2)(b) o'r Bil i gynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y categori ysgolion "Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", a fyddai'r Bil yn caniatáu i ysgol sydd eisoes wedi cael dau esemptiad ofyn am esemptiadau pellach. Mewn ymateb, dywedodd wrthym na fyddai hyn yn bosibl, fel a ganlyn:

> *"… rŷn ni wedi rhoi esemptiadau i mewn i helpu ysgolion i ddod at y 10 y cant—lefel 10 y cant—ac mae degawd gan yr ysgolion i gyrraedd y pwynt hwnnw. Pan fyddan nhw ar y lefel yna, unrhyw beth bydd Llywodraethau yn y dyfodol yn ei wneud i godi'r lefel yna, bydd hwnna'n dod mas o'r gwaith rŷn ni'n ei wneud gyda'r ysgolion, so mae'r llawr yna gyda nhw yn barod. Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn meddwl bydd e'n rhesymol i roi mwy o gyfleon ar ôl hynny i gael esemptiadau eraill. So, mae*

[80] Mae adran 85(2)(c) o Ddeddf 2013 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wrthod cynllun strategol Cymraeg mewn addysg a baratowyd gan awdurdod lleol, a pharatoi cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod.
[81] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [148]

> *esemptiadau i helpu pobl i ddod at y llawr. Ar ôl hynny, y bwriad yw—yr uchelgais yw—i godi'r llawr, ond dwi ddim yn gweld achos cryf dros roi mwy o gyfleon ar ôl hynny i delay'r uchelgais sydd gyda ni i godi'r lefel."*[82]

**107.** Mae adran 20 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol baratoi cynllun addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol.

**108.** Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a wnaed, i wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau addysg Gymraeg ysgolion arbennig cymunedol, gan gynnwys am hyd ac amseriad cynllun, ymgynghori ar gynllun, cymeradwyo cynllun, ac adolygu a diwygio cynllun.

**109.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam mae materion o'r fath yn cael eu gadael i reoliadau yn hytrach na chael eu gosod ar wyneb y Bil, gan fod materion o'r fath yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil mewn perthynas ag ysgolion eraill. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"… mae'r Bil yn ei wneud e'n orfodol i ysgolion fel yna greu cynllun a chael y cynllun fel rhan o'r system newydd ni'n ei chreu. Ond dydy'r Bil ddim yn rhoi ysgolion yn orfodol i mewn i unrhyw gategori ac mae hwnna jest yn adlewyrchu'r ffaith bydd disgyblion â lot o anghenion … gwahanol."*[83]

## Ein barn ni

**110.** Nodwn gadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet na fydd y Bil yn caniatáu esemptiadau pellach ar gyfer ysgol sydd eisoes wedi cael dau esemptiad i'r gofyniad a osodwyd arni i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg. Rydym o'r farn bod hyn yn cael ei ddarparu gan adran 18(1) ac adran 19(1) o'r Bil, felly rydym yn cytuno â'r asesiad hwn.

**111.** Rydym hefyd yn cydnabod esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau addysg Gymraeg ysgolion arbennig cymunedol ar ei wyneb, gan y bydd gan ddisgyblion mewn ysgolion o'r fath lawer o anghenion gwahanol.

---

[82] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [137]
[83] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [139] a [141]

## Adran 23 (Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg)

**112.** Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

**113.** Mae adran 23(1)(b) yn cynnwys y gair "gydol oes" mewn cromfachau ac, yn adran 23(5)(b), mae'r gair "cenedlaethol" yn ymddangos yn yr un modd. Pan ofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam felly, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"Yn adran 23(1)(b) bwriedir i'r cromfachau roi eglurhad bod gan 'dysgu Cymraeg' ystyr ehangach, mwy cyffredinol na'r hyn a ddefnyddiwyd yn y Bil hyd at y pwynt hwnnw, nid yw wedi'i gyfyngu i ddysgu Cymraeg mewn lleoliad oedran ysgol gorfodol.*
>
> *Yn yr un modd, yn adran 23(5)(b) defnyddir cromfachau i egluro bod targedau yn y paragraff hwn i adlewyrchu'r targedau cenedlaethol, nid targedau lleol y cyfeirir atynt yn adran 23(5)(a)."*[84]

**114.** Mae adrannau 23(3) i (6) yn cynnwys gofynion o ran yr hyn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei nodi a'i gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol, ac mae is-adran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg at ddiben hwyluso cyflawni targedau cenedlaethol sy'n ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg.

**115.** Mae adran 23(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, i ddiwygio adrannau 23(3) i (7) o'r Bil i ddiwygio'r hyn y mae'n ofynnol neu y caniateir ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol.

**116.** Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn nodi, mewn perthynas â'r pŵer Harri'r VIII hwn:

> *"Mae'r pŵer ei angen er mwyn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion amrywio'r gofynion ynghylch beth ddylai gael ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol, pan fo angen, er mwyn ymateb i*

---

[84] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 11

> *sefyllfaoedd newydd all godi yn y dyfodol. Er enghraifft, newidiadau i'r strwythurau presennol ynghylch sut y darperir addysg, newidiadau i'r gofynion ynghylch categorïau iaith ysgolion neu newidiadau eraill mewn cymdeithas na ellir eu rhagweld. …*
>
> *Nid oes unrhyw gynlluniau gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith. Yn hytrach y bwriad yw bod y pŵer ar gael i Weinidogion er mwyn gallu ei ddefnyddio i newid y gofynion ynghylch cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol mewn ymateb i sefyllfaoedd newydd fel a ddisgrifir uchod."*[85]

**117.** Pan ofynnwyd iddo gyfiawnhau cynnwys y pŵer hwn, a'r ffaith y byddai ei gynnwys yn arwain at allu cyfyngedig i'r Senedd graffu ar ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… The procedures that the Senedd has to have overnight of and scrutiny of subordinate legislation, I think, are very significant. Whether the Senedd uses them to the extent that it should is a matter for the Senedd, of course, not for Ministers. You will have sat, and I have sat, many times in the Senedd when subordinate legislation is brought forward, where it is using the affirmative procedure, or even sometimes the superaffirmative procedure, often at the urging of committees, and the debate goes like this: the Minister introduces the regulations; the Llywydd says, 'I have no further speakers, does the Minister wish to respond?', and it's all over. So, if I was to identify a weakness in the system, it would be less in the way in which legislation creates subordinate ways of doing things than that the Senedd itself doesn't always make full use of the powers of scrutiny that it has in the making of that legislation.*
>
> *Now, I believe that this Bill gets the balance right. When there are merely administrative changes, it's a negative procedure; where there are more significant uses of subordinate legislation, this Bill provides the Senedd with, I think, a suitable opportunity to make sure that things are scrutinised."*[86]

[85] Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalennau 26 i 27
[86] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [163]

## Ein barn ni

**118.** Nodwn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet am y geiriau “gydol oes” a “cenedlaethol” mewn cromfachau yn adran 23 o’r Bil.

**119.** Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai cynnwys cromfachau o amgylch y geiriau hyn arwain at amheuaeth ynghylch eu statws o fewn y ddeddfwriaeth. Mae’n parhau i fod yn aneglur i ni pam mae angen defnyddio cromfachau neu, fel arall, pam nad yw’r Bil yn darparu’r cyd-destun angenrheidiol ar gyfer y geiriau hyn.

**Argymhelliad 9.** Dylid diwygio’r Bil i ddileu’r cromfachau o amgylch y geiriau “gydol oes” a “cenedlaethol” yn adran 23 o’r Bil ac, os bernir bod angen, dylid diwygio’r Bil ymhellach i gynnwys cyd-destun llawnach ar gyfer y geiriau hyn er mwyn helpu dealltwriaeth.

**120.** Rydym hefyd yn nodi’r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad o fwriad y polisi mewn perthynas â phŵer Harri’r VIII yn adran 23(9) sy’n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio adran 23(3) i 23(7). Yn benodol, nodwn nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw gynlluniau i ddefnyddio’r pŵer hwn ar hyn o bryd.

**121.** Yn yr un modd, nodwn farn Ysgrifennydd y Cabinet nad yw’r Senedd bob amser yn gwneud defnydd llawn o’r pwerau craffu sydd ar gael iddi pan osodir is-ddeddfwriaeth ar gyfer craffu o’r fath, gan nodi bod offerynnau yn aml yn cael eu pasio heb i unrhyw sylwadau gael eu gwneud amdanynt ar lawr y Senedd.

**122.** Fodd bynnag, er efallai na fydd gan y Senedd bresennol – ar brydiau – unrhyw sylwadau i’w gwneud ynghylch arfer pwerau gan Lywodraeth bresennol Cymru, nid yw’n annirnadwy y gallai Senedd yn y dyfodol ffurfio barn wahanol iawn am y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn arfer y pwerau sydd ganddi. Rydym yn mynegi barn debyg yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.[87]

**123.** Am y rheswm hwn, credwn y dylid rhoi mesurau diogelu trylwyr ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau bod gan y Senedd y pwerau priodol o ran craffu ar is-ddeddfwriaeth. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig pan fydd gweithrediaeth bresennol yn cymryd pwerau Harri’r VIII heb unrhyw gynlluniau i’w defnyddio ar y pryd.

[87] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024, paragraff 100

**124.** Gan roi sylw arbennig i'r pŵer yn adran 23(9): os caiff ei arfer, bydd yn cael ei wneud drwy set wahanol o bosibl o Weinidogion Cymru mewn Senedd yn y dyfodol a, thrwy ei ddefnyddio, bydd y Gweinidogion hynny'n gallu newid cynnwys pum is-adran Bil heb fawr ddim goruchwyliaeth. Rydym o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn ddirprwyaeth amhriodol o bŵer.

**125.** Am y rhesymau hyn, credwn y dylai rheoliadau sy'n diwygio adran 23(3) i (7) o'r Bil, a wneir o dan adran 23(9), fod yn destun ymgynghoriad statudol sy'n rhoi cyfle i graffu'n drylwyr ar bolisïau. Credwn y dylai craffu o'r fath roi digon o amser i bwyllgorau'r Senedd graffu'n fanwl ar gynigion sydd wedi'u cynnwys mewn rheoliadau o'r fath, o ystyried ehangder y pŵer hwn. Credwn y gall adran 53 o *Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023*[88] gynnig un dull posibl.

**Argymhelliad 10.** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gosod rheoliadau drafft o dan adran 23(9).

**Argymhelliad 11.** Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol na fydd rheoliadau o dan adran 23(9) yn cael eu gwneud nes bod 60 diwrnod wedi mynd heibio ers gosod y rheoliadau drafft.

## Adrannau 28 i 34 (Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg)

**126.** Mae adran 28 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ei hun. Mae is-adrannau (1) i (3) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i gynllun ei gynnwys, ac mae is-adran (4) yn datgan bod rhaid i bob awdurdod lleol, wrth baratoi cynllun, roi sylw i'r Fframwaith Cenedlaethol, a rhaid iddo hefyd ymgynghori â'r canlynol:

- ei awdurdodau lleol cyfagos;
- pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo;
- corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo;
- pennaeth pob sefydliad addysg bellach yn ei ardal;
- mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn ei ardal, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, ac os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol;

[88] Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/cy/asc/2023/4/section/53/welsh

- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- Comisiynydd y Gymraeg; a
- personau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**127.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi dichonoldeb pob un o'r ymgyngoreion a restrir uchod yn gallu ymgysylltu â'r holl awdurdodau lleol wrth baratoi eu cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg ar yr un pryd. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"… the consultation requirements that this Bill sets out essentially reflect the consultation arrangements around the WESPs that were set out in the founding Act, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013.[89] The obligation to consult neighbouring authorities, for example, is in that Act and has been part of WESP preparation ever since.*
>
> *There are a couple of new consultees identified in this Bill, but they are not ones I think you'd regard particularly burdensome. There's a requirement, for example, to seek the views of the Welsh Language Commissioner. The commissioner will have views and the commissioner will be publishing material on this, so you wouldn't have to make a special effort to hear from the Welsh Language Commissioner. The national institute that the Bill brings into being is also a consultee for these purposes."[90]*

**128.** Mae adran 28(3)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg gynnwys "gwybodaeth am yr ymarferwyr addysg sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol". Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pa fath o wybodaeth y rhagwelir y byddai cynllun strategol Cymraeg mewn addysg yn ei chynnwys, a pham nad yw rhagor o fanylion am faterion o'r fath wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Mewn ymateb, dywedodd y gallai gwybodaeth o'r fath:

> *"… gynnwys nifer yr ymarferwyr neu eu gallu yn y Gymraeg, neu eu hoedran. Y bwriad yw y bydd rheoliadau o dan adran 33 yn gallu rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae angen ei gynnwys yn*

[89] Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn adran 84(4) o Ddeddf 2013.
[90] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [97] i [98]

> *y cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol. Gallai hyn newid wrth i amser fynd yn ei flaen – bydd ein taith tuag at 2050 yn gofyn i ni adolygu'r cynnydd a wneir ac addasu dros amser wrth i amgylchiadau newid."*[91]

**129.** Mae adrannau 29 i 32 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg.

**130.** Yn benodol, mae adran 30 ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyflwyno drafft o'i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg i Weinidogion Cymru, a all wedyn naill ai gymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd, ei gymeradwyo gydag addasiadau, neu wrthod y cynllun. Os byddant yn ei wrthod, efallai y byddant yn rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol ailystyried y cynllun.

**131.** Yn yr un modd, yn unol ag adran 32, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol os ydynt o'r farn nad yw'r awdurdod lleol yn debygol o gyrraedd targed sy'n berthnasol iddo yn y Fframwaith Cenedlaethol, a'i gwneud yn ofynnol iddo ystyried diwygio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg.

**132.** Fel i ni ofyn yn yr un modd mewn perthynas ag adran 15, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu unrhyw oblygiadau posibl pe na bai awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru yn gallu cytuno ar gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Mewn ymateb, dywedodd wrthym y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio eu pwerau presennol o dan Ddeddf 2013[92] "yn y diwedd" mewn achos o'r fath.[93]

**133.** Mae'r Bil yn datgan na fydd cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 30 a 32 yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam mae hyn yn wir. Mewn ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae adrannau 30 a 32 o'r Bil yn bwerau i wneud cyfarwyddydau sy'n "weithredol" eu natur, yn hytrach na lled-ddeddfwriaethol. Pan fo deddfwriaeth sylfaenol yn gwneud darpariaeth ynghylch y pŵer i wneud cyfarwyddydau o'r math*

[91] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 12
[92] Mae adran 85(2)(c) o Ddeddf 2013 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wrthod cynllun strategol Cymraeg mewn addysg a baratowyd gan awdurdod lleol, a pharatoi cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod.
[93] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [148]

> *hwn, nid yw'n arferol i gyfarwyddydau o'r fath fod yn ddarostyngedig i weithdrefn mewn deddfwriaeth sylfaenol."*[94]

**134.** Mae adran 33(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a wnaed, i wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Gall darpariaeth o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- ffurf a chynnwys cynllun;
- amseriad llunio cynllun;
- y broses ymgynghori wrth lunio cynllun drafft;
- gweithdrefn cymeradwyo cynllun;
- sut a phryd i gyhoeddi cynllun; ac
- adrodd ar weithredu'r cynllun.

**135.** Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn nodi mewn perthynas â'r pŵer yn adran 33(1):

> *"Mae'n briodol bod rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol.*
> ...
>
> *Gellid defnyddio'r pwerau yma i ofyn i awdurdodau lleol amlygu yn eu cynlluniau sut y mae rhaglenni, polisïau a'u dyletswyddau statudol ehangach wedi cael eu hystyried wrth geisio cyflawni'r targedau a osodir arnynt … Mae'r briodol felly bod y lefel yma o fanylion yn fater i is-ddeddfwriaeth oherwydd mae'n debygol fyddant yn amrywio dros amser."*[95]

**136.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio – o ystyried ehangder y pŵer hwn – a fyddai'n fwy priodol i reoliadau a wneir o dan

---

[94] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 13
[95] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 33

adran 33(1) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae'r Bil yn deddfu ar gyfer nifer o gysyniadau allweddol sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol, er enghraifft:*
>
> - *beth sy'n rhaid ei gynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg,*
> - *hyd y CSGA a*
> - *pwy y mae'n rhaid ymgynghori â hwy.*
>
> *[Mae'r pŵer yn adran 33 yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach am y cynllun, ond mae'r materion hynny o natur dechnegol a gweinyddol yn bennaf ac yn ategu'r hyn sydd yn y Bil, er enghraifft:*
>
> - *amseriad y cynllun (ond nid ei hyd),*
> - *y broses ymgynghori, ac*
> - *y broses gymeradwyo.]*
>
> *Byddai hyn yn gwyro tuag at weithdrefn negyddol, fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar is-ddeddfwriaeth.*
>
> *Mae cyfle hefyd o dan y pŵer i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cynnwys y cynllun, a fydd yn adeiladu ar y gofynion a ragnodir yn adran 28, ac sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth benodol a manylach (fel yw'r achos gyda'r rheoliadau presennol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg).*
>
> *Byddai hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a blaenoriaethau dros amser. Bydd y pŵer hwnnw'n cael ei gyfyngu gan gwmpas adran 28 – rhaid i'r darpariaethau yn y rheoliadau ynghylch y cynnwys ddod o fewn cwmpas adran 28.*
>
> *Mae defnyddio'r weithdrefn negyddol yn adlewyrchu'r weithdrefn bresennol yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rwyf o'r farn bod modd cyfiawnhau'r*

*weithdrefn negyddol ar y sail ei bod yn dilyn arfer presennol a'r ddeddfwriaeth bresennol."*[96]

**137.** Yn unol ag adran 33(2), caiff rheoliadau a wneir o dan adran 33(1) hefyd wneud darpariaeth sy'n galluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i lunio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, a chaiff unrhyw reoliadau o'r fath wneud darpariaeth i gymhwyso adrannau 28 i 32 gydag addasiadau at y diben hwnnw. Pan ofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet mewn gohebiaeth nodi pa fath o addasiadau y gallai'r rhain fod, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"Mae hyn yn gymwys pan ganiateir i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau ar y cyd o ganlyniad i reoliadau a wneir o dan adran 33(2). Mewn sefyllfa o'r fath efallai y bydd angen addasu rhai o ofynion adrannau 28 i 32 i adlewyrchu natur y cynlluniau ar y cyd, a'r ffaith y bydd yn cwmpasu ardal fwy nag un awdurdod. Efallai hefyd y bydd angen addasu er mwyn adlewyrchu'r targedau ar wahân y bydd yr awdurdodau lleol yn eu derbyn yn y Fframwaith.*
>
> *Mae hyn yn adlewyrchu'r pŵer yn fframwaith statudol presennol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (adran 87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013)."*[97]

**138.** Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad oes manylion ar wyneb y Bil yn ymwneud â chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae ymdrin â chynlluniau ar y cyd mewn rheoliadau yn golygu y gellir ymgynghori ynghylch pa fath o gynlluniau ar y cyd y gellid eu creu. Gallai hynny fod yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Bydd cael pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu mecanwaith mwy pwrpasol a phenodol ar gyfer cynlluniau o'r fath. Mae hyn yn adlewyrchu'r pŵer yn fframwaith statudol presennol y Cynlluniau Strategol Cymraeg*

[96] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 14a. Darparwyd y testun mewn cromfachau sgwâr, oedd wedi'i hepgor o lythyr yr Ysgrifennydd Cabinet, gan Lywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.
[97] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 14b

*mewn Addysg (adran 87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).*[98]

## Ein barn ni

**139.** Nodwn y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag adrannau 28 i 34 o'r Bil.

**140.** Yn benodol, nodwn ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet bod y rhestr o ymgyngoreion a ddarperir gan adran 28(4) yn adlewyrchu'r rhai a ddarperir gan Ddeddf 2013. Nodwn hefyd ei farn na fydd ychwanegu Comisiynydd y Gymraeg a'r Athrofa Dysgu Cymraeg at y rhestr honno yn arwain at waith ychwanegol i awdurdodau lleol a fyddai'n cael ei ystyried yn arbennig o feichus.

**141.** Yn ogystal, nodwn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad yw adran 28(3)(a) yn rhoi rhagor o fanylion am ba fath o "wybodaeth" y dylai cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ei chynnwys mewn perthynas ag ymarferwyr addysg sy'n gweithio mewn ardal awdurdod lleol. Yn hyn o beth, rydym yn cydnabod yr enghreifftiau a ddarperir gan Ysgrifennydd y Cabinet o'r hyn y gall yr wybodaeth hon ei gynnwys, megis nifer yr ymarferwyr neu eu gallu yn y Gymraeg, neu eu hoedran. Gan ei bod yn ymddangos bod cynnwys manylion o'r fath o fewn cynllun yn ganolog i gyflawni nodau'r Bil, credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi ystyriaeth bellach i gynnwys rhagor o fanylion yn adran 28(3)(a).

**Argymhelliad 12.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a ddylid diwygio'r Bil i gynnwys rhagor o fanylion ynghylch pa fath o "wybodaeth" y dylai cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ei chynnwys mewn perthynas ag ymarferwyr addysg sy'n gweithio mewn ardal awdurdod lleol.

**142.** Rydym yn cydnabod cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau presennol o dan Ddeddf 2013 yn y diwedd pe na bai awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru yn gallu cytuno ar gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg.

**143.** Rydym hefyd yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet bod y pwerau i wneud cyfarwyddydau o fewn adran 30 a 32 o'r Bil yn "weithredol" eu natur, ac felly ni ddylent fod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu. Fodd bynnag, o ystyried bod y pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd â phroses

---

[98] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 14c

gwneud penderfyniadau oddrychol awdurdod lleol, credwn ei bod yn briodol y dylai cyfarwyddydau o'r fath fod yn destun lefel o graffu gan y Senedd.

**Argymhelliad 13.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a wneir o dan adrannau 30 a 32 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a wnaed.

**144.** Nodwn farn Ysgrifennydd y Cabinet fod cynnwys y weithdrefn negyddol a wnaed mewn rheoliadau a wneir o dan adran 33(1) o'r Bil yn ailadrodd y weithdrefn bresennol yn Neddf 2013, ac felly bod modd cyfiawnhau hynny ar y sail honno.

**145.** Nodwn hefyd y cyfiawnhad a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros pam nad yw'r Bil yn cynnwys manylion am gynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, am y rheswm y bydd darparu manylion o'r fath mewn rheoliadau yn caniatáu mecanwaith mwy pwrpasol a phenodol ar gyfer cynlluniau o'r fath, ac i ymgynghori ar eu cynnwys. Yn yr un modd, nodwn fod y ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol yn adran 87 o Ddeddf 2013.

**146.** Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith bod adran 33(2) yn adlewyrchu'r pŵer presennol yn Neddf 2013, credwn fod y Bil hwn yn rhoi cyfle i gynnwys lefel ddigonol o fanylion ar ei wyneb mewn perthynas â chynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, yn hytrach na gadael yr holl fanylion o'r fath i'w nodi mewn rheoliadau. Credwn y byddai gwerth yn y dull hwn, gan y byddai'n rhoi mwy o sicrwydd i awdurdodau lleol a hefyd yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch.

**Argymhelliad 14.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a ddylid diwygio'r Bil i roi rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ac y gellir ei chynnwys mewn cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, yn ogystal â'r mecanwaith ar gyfer ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, a'r broses o adolygu a diwygio cynlluniau o'r fath.

## Rhan 5 ac Atodlen 2 (Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol)

**147.** Mae Rhan 5 o'r Bil yn cynnwys wyth adran, ac mae un ohonynt yn cyflwyno Atodlen.

**148.** Mae adran 36 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg fel corff corfforaethol sydd â phwerau a dyletswyddau penodol mewn perthynas â hwyluso a chefnogi dysgu'r Gymraeg. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaethau pellach ynghylch yr Athrofa.

**149.** Mae paragraff 2(1) o Atodlen 2 yn datgan bod cadeirydd ac aelodau anweithredol yr Athrofa Dysgu Cymraeg i'w penodi gan Weinidogion Cymru.

**150.** Mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "*Bydd yr Athrofa yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r ddogfen fframwaith safonol ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.*"[99]

**151.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y bwriedir i'r Athrofa Dysgu Cymraeg weithredu fel corff hyd braich, o gofio y bydd ei chadeirydd a'i haelodau anweithredol yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru, a'r ffaith y bydd disgwyl iddi weithredu o fewn fframwaith cynllunio strategol ac ariannu a sefydlwyd gan y Gweinidogion hynny. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> "*… the national institute will operate in just the same way as any other arm's-length body that is established by the Welsh Government. Of course … the chair and the board will be appointed by Welsh Ministers, but that's not an arbitrary process. As you know, we are governed by a code of conduct for public appointments. The involvement of the commissioner is always part of that. Ministers will get advice in which the commissioner will have been directly involved. … And, yes, the chief funding stream for the institute will be the Welsh Government, but it will have its own accountable officer, who will be responsible for the financial oversight of the organisation and will have independent legal obligations and capacities of their own.*"[100]

**152.** Mae paragraff 2(4) o Atodlen 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, amrywio nifer aelodau'r Athrofa Dysgu Cymraeg. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod cynnwys y pŵer hwn "yn caniatáu'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru newid nifer yr aelodau anweithredol a gweithredol fel bo'r angen", a gan y bydd y rheoliadau a wneir wrth arfer y pŵer yn rhagnodi "materion technegol a gweinyddol", mae'r weithdrefn negyddol a wnaed wedi'i dewis.[101]

---

[99] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.214
[100] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [105]
[101] Memorandwm Esboniadol, tudalen 98

Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn datgan yn yr un modd mewn perthynas â'r pŵer hwn:

> *"Gellir rhagweld defnyddio'r pŵer hwn gyda'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa o dan adran 38(1). Er enghraifft, pe bai angen i Weinidogion roi swyddogaethau atodol i'r Athrofa, gallai'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i gynyddu nifer yr aelodau pe byddai angen hynny er mwyn galluogi i'r Athrofa arfer ei swyddogaethau atodol."*[102]

**153.** Fodd bynnag, yn unol ag adran 52(4)(b), mae'n ymddangos y bydd rheoliadau a wneir drwy arfer y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Felly, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, mewn gohebiaeth, gadarnhau mai dyna oedd yr achos. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor y byddai rheoliadau a wneir o dan baragraff 2(4) o Atodlen 2 i'r Bil yn diwygio paragraff 2(1) o Atodlen 2 i'r Bil, gan ei fod yn bŵer i ddiwygio darpariaeth yn Neddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Rydym yn cytuno mai effaith adran 52(4)(b) yw bod y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol i'r rheoliadau. Byddwn yn ystyried a oes angen diwygio adran 52(4)(a) o'r Bil a byddwn yn diwygio Tabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu testun y Bil."*[103]

**154.** Mae paragraff 15(4) o Atodlen 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r cyfrifoldebau a fydd gan swyddog cyfrifyddu'r Athrofa Dysgu Cymraeg newydd. Mae paragraff 15(5) yn nodi'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu, sy'n cynnwys:

- cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi'r cyfrifon;
- cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid yr Athrofa Dysgu Cymraeg;
- cyfrifoldebau am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau'r Athrofa Dysgu Cymraeg; a

[102] Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 37
[103] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 15

- cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, Senedd Cymru neu ei Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**155.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y dylid pennu'r cyfrifoldebau hyn yn ymarferol, ac a fydd y Senedd yn cael cyfle i graffu arnynt. Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam na ellid cynnwys rhestr ddiffiniol o gyfrifoldebau ar wyneb y Bil, yn lle'r rhestr anghyflawn a gynhwysir ym mharagraff 15(5). Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> "*Bydd yr Athrofa yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithredu hyd braich o'r Llywodraeth, ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido strategol a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r ddogfen fframwaith safonol ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac yn manylu ar y telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu adnoddau oddi tanynt i'r Athrofa rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r Athrofa yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau unigol y Bwrdd.*
>
> *Bydd gan y Swyddfa Archwilio gyfrifoldebau penodol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano, a bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn memorandwm ar wahân o dan y fframwaith, gan gynnwys atebolrwydd yr Athrofa i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a bwrdd yr Athrofa. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn deillio'n wreiddiol o'r Trysorlys – ac mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol rôl o ran sicrhau bod cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau hynny. Nid oes gan y Senedd unrhyw bŵer i ymyrryd i'r perwyl hwn.*
>
> *Y rheswm dros ddarparu rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr yw er mwyn rhoi paramedrau eang i'r rôl ond hefyd darparu hyblygrwydd mewn perthynas â swyddogaethau'r prif swyddog cyfrifyddu sy'n ddigon hyblyg i adlewyrchu unrhyw esblygiad yng ngofynion Gweinidogion Cymru ar atebolrwydd ariannol o fewn y fframwaith ariannu. Yn aml iawn, nid yw deddfwriaeth sylfaenol yn dweud dim byd o gwbl am ddyletswyddau'r Swyddog Cyfrifyddu wrth sefydlu corff statudol newydd, felly nod paragraff 15 yw rhoi syniad bras o beth fydd y dyletswyddau hynny, heb fod yn rhy ragnodol.*

> *Yn ogystal, mae egwyddorion cyfrifyddu cyffredinol yn gymwys i gyrff sy'n ymwneud ag arian y Llywodraeth."*[104]

**156.** Mae paragraff 18 o Atodlen 2 yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau'r Athrofa Dysgu Cymraeg.

**157.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet, mewn gohebiaeth, roi manylion unrhyw ystyriaeth a roddwyd ynghylch a yw paragraff 18 o Atodlen 2 yn cydymffurfio â pharagraff 5(3) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006.[105] Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae paragraff 18 o Atodlen 2 i'r Bil hwn yn rhoi pŵer i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad ariannol, yn datgan bod amcanion polisi y tu hwnt i gwmpas y disgresiwn a ddarperir i'r Archwilydd Cyffredinol, ac yn darparu'r hyn y mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud cyn ac ar ôl cynnal archwiliad ariannol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ym mharagraff 18 sy'n rheoli neu'n cyfarwyddo'r defnydd o swyddogaethau archwilio ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â pharagraff 5(3) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006."*[106]

**158.** Mae adran 37 yn nodi amcan yr Athrofa Dysgu Cymraeg – cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso eu cynnydd, fel bod mwy o bobl yn dysgu'r iaith ac yn gwella eu sgiliau – ac yn gosod dyletswyddau arni i gyflawni'r amcan hwn. Mae rhai o'r dyletswyddau hyn yn cynnwys ymgysylltu â nifer o drydydd partïon; er enghraifft, mae is-adran (2)(g) yn datgan bod rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg ddatblygu a chynnal cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol.

**159.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio sut y bwriedir arfer y dyletswyddau yn adran 37 yn ymarferol, a beth, os o gwbl, fydd y canlyniadau ar

---

[104] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 17
[105] Mae paragraff 5(3) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn datgan na all darpariaeth o Ddeddf y Senedd, oni bai ei bod yn ddarpariaeth goruchwylio a hefyd yn ddarpariaeth pwyllgor anllywodraethol, wneud addasiadau i adran 8(1) o *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013* i'r graddau y mae'r adran honno'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn rhydd o gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd neu Lywodraeth Cymru, neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud hynny.
[106] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 16

gyfer unrhyw drydydd partïon nad ydynt yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad y mae'r Athrofa yn ei osod arnynt. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"… the relationship is essentially a contractual one. So, the national institute will contract with a number of Welsh language learning providers. You would expect the institute to monitor that contract, to monitor compliance with that contract, and if a provider was not carrying out the terms of the contract, to intervene to secure compliance. In the end, the consequence for the provider, for the third party, is that they lose the contract. So, there is a significant potential penalty for an organisation, in that relationship with the national institute, if it fails to deliver what it has been contracted to deliver."*[107]

## Ein barn ni

**160.** Nodwn y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â Rhan 5 o'r Bil, ac Atodlen 2 iddi.

**161.** Rydym yn cydnabod esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y dull a ddefnyddiwyd mewn perthynas â pharagraff 2(1) o Atodlen 2. Yn benodol, er y bydd cadeirydd a bwrdd yr Athrofa Dysgu Cymraeg yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru, bydd nifer o fesurau diogelu yn sicrhau y gall weithredu'n effeithiol hyd braich o Lywodraeth Cymru.

**162.** Rydym hefyd yn cydnabod cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet – yn rhinwedd adran 52(4) o'r Bil – y bydd rheoliadau a wneir o dan baragraff 2(4) o Atodlen 2 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, yn hytrach na'r weithdrefn negyddol a wnaed (fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol). Nodwn y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried a fydd angen gwelliant i adran 52(4) o'r Bil.

**163.** Er bod y Memorandwm Esboniadol yn datgan y bydd rheoliadau a wneir o dan baragraff 2(4) o Atodlen 2 yn rhagnodi materion "technegol a gweinyddol," credwn nad yw'r mater o newid nifer yr aelodau anweithredol a gweithredol corff hyd braich yn bodloni'r meini prawf hyn, felly credwn ei bod yn briodol cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft i reoliadau o'r fath. Credwn felly y dylid darparu eglurder ynghylch canlyniad unrhyw ystyriaeth a roddir i'r weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth y pŵer hwn i wneud rheoliadau.

---

[107] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [101]

**Argymhelliad 15.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ychwanegu paragraff 2(4) o Atodlen 2 at adran 52(4) ac, os nad dyna fwriad Llywodraeth Cymru, dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam felly.

**164.** Nodwn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad oes rhestr ddiffiniedig o gyfrifoldebau ar gyfer yr Athrofa Dysgu Cymraeg wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil, yn lle'r rhestr anghyflawn a ddarperir gan baragraff 15(5) o Atodlen 2.

**165.** Nodwn hefyd farn Ysgrifennydd y Cabinet fod paragraff 18 o Atodlen 2 yn cydymffurfio â pharagraff 5(3) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006, gan nad yw unrhyw un o'i ddarpariaethau'n rheoli neu'n cyfarwyddo'r defnydd o swyddogaeth archwilio ariannol yr Archwilydd Cyffredinol.

**166.** Ar ben hynny, nodwn farn Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y berthynas rhwng cyrff a gyfarwyddir gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg o dan adran 37 o'r Bil yn un contractiol, ac mai'r canlyniad yn y pen draw i ddarparwr dysgu nad yw'n dilyn gofynion yr Athrofa fyddai colli contract.

## Adran 49 (Dehongli)

**167.** Mae adran 49 yn darparu diffiniadau o rai o'r termau a ddefnyddir yn y Bil.

**168.** O fewn adran 8(2)(b) ac adran 35(a), darperir diffiniad union yr un fath o "addysg Gymraeg" at ddibenion Rhannau 3 a 4, yn y drefn honno. Ar y llaw arall, mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn adrannau 1(1)(c)(i) a 39(2), ond nid yw'n cael ei ddiffinio at y dibenion hynny.

**169.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad yw un diffiniad o "addysg Gymraeg" yn cael ei ddarparu yn adran 49 o'r Bil. Gwnaethom hefyd ofyn a oedd yn ystyried bod absenoldeb diffiniad o'r term mewn perthynas ag adran 1(1)(c)(i) ac adran 39(2) yn debygol o achosi unrhyw ddryswch o ran dehongli.

**170.** Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cytuno â ni nad yw'r term "addysg Gymraeg" wedi'i ddiffinio yn adran 1(1)(c)(i) ac adran 39(2), a dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn "ystyried y mater hwn ymhellach."[108]

[108] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 18

### Ein barn ni

**171.** Rydym yn cydnabod ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i roi ystyriaeth bellach i'r ffaith nad oes diffiniad o "addysg Gymraeg" at ddibenion adran 1(1)(c)(i) ac adran 39(2) o'r Bil.

**172.** Credwn y bydd cynnwys un diffiniad trosfwaol o'r term yn adran 49 o'r Bil yn cynorthwyo defnyddwyr y ddeddfwriaeth, yn enwedig gan ei fod yn derm sydd newydd ei gyflwyno (fel i ni drafod yn y bennod flaenorol).

**Argymhelliad 16.** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o "addysg Gymraeg" yn adran 1(1)(c)(i) ac adran 39(2).

## Adran 50 (Cyhoeddi)

**173.** Mae adran 50 yn datgan, lle mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar berson i gyhoeddi dogfen, bod rhaid ei chyhoeddi'n electronig, ac os oes gan y person ei wefan ei hun, bod rhaid cyhoeddi'r ddogfen ar y wefan honno.

**174.** Mewn gohebiaeth, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio, os nad oes gan berson ei wefan ei hun, lle mae disgwyl i'r person hwnnw gyhoeddi dogfen o'r fath. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae'r ddarpariaeth yn debyg i adran 171 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Polisi Llywodraeth Cymru bryd hynny oedd, pan oedd dyletswydd i gyhoeddi'n electronig yn disgyn ar gyngor cymuned o dan y Ddeddf honno ac nad oedd gan y cyngor cymuned hwnnw wefan, gallent ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi'r deunydd ar eu gwefan nhw.*
>
> *Yn y cyd-destun hwn, os nad oedd gwefan gan ysgol, gallent ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi'r ddogfen. Mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nid oedd unrhyw bryderon y byddai'r cyrff y gosodwyd y ddyletswydd honno arnynt yn cael unrhyw broblemau wrth gyflawni'r ddyletswydd.*
>
> *O ran y ddyletswydd i gyhoeddi'n "electronig", gallai ysgol hefyd gyhoeddi dogfennau drwy ap, ac mae adran 50(1) yn caniatáu*

*ar gyfer hynny. Efallai y bydd llwyfannau cyfryngau digidol neu gymdeithasol eraill hefyd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol."*[109]

## Ein barn ni

**175.** Nodwn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet, yn unol â darpariaethau'r Bil, pe na bai gan ysgol wefan – neu ap – gallai ofyn i awdurdod lleol gyhoeddi unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol iddi eu cyhoeddi ar ei rhan.

**176.** Fodd bynnag, credwn nad yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn rhoi digon o sicrwydd y byddai'r opsiwn hwn ar agor ar gyfer ysgol berthnasol[110] i ddewis. Yn hynny o beth, credwn y dylid darparu sicrwydd cyfreithiol o'r fath ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 17.** Dylid diwygio'r Bil fel ei fod yn datgan, lle mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar ysgol a gynhelir i gyhoeddi dogfen yn electronig, ac nad oes ganddi ei gwefan ei hun, y caiff ofyn i awdurdod lleol gyhoeddi'r ddogfen ar ei rhan.

---

[109] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 15 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 19
[110] Er enghraifft, mae'n ymddangos nad oes gan wyth o'r 39 o ysgolion cynradd a gynhelir gan Gyngor Sir Ceredigion eu gwefan eu hunain.